Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gymraeg Bro Teyrnon
# Brynglas Drive
# Casnewydd
# NP20 5QS

## Dyddiad yr arolygiad:  Medi 2015

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 24/11/2015**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gymraeg Bro Teyrnon yn ysgol gynradd newydd sydd wedi ei lleoli yng ngogledd Casnewydd. Agorwyd yr ysgol ym mis Medi 2011 fel dosbarth cychwynnol yn rhannu safle gydag ysgol gynradd cyfrwng Saesneg. Ym mis Medi 2013, symudodd yr ysgol i'w lleoliad presenol, sy'n rhannu safle gydag Ysgol Maes Ebbw. Ers mis Medi eleni, mae'r ysgol yn derbyn disgyblion hyd at Flwyddyn 4 yn unig.

Mae 117 o ddisgyblion ar y gofrestr, sy'n cynnwys 21 o ddisgyblion rhan amser yn y dosbarth meithrin. Mae nifer y disgyblion wedi cynyddu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf. Fe'u rhennir yn bump dosbarth. Cyflogir pump o athrawon amser llawn, gan gynnwys y pennaeth, un athro rhan amser, pump cynorthwyydd addysgu amser llawn ac un rhan amser.

Saesneg yw iaith y cartref i bron pob disgybl, gyda'r Gymraeg yn cael ei siarad mewn ychydig iawn o gartrefi. Daw oddeutu 20% o gefndir lleiafrif ethnig. Mae 15.7% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn cinio ysgol am ddim, ffigwr sydd yn is na'r cyfartaleddau lleol a chenedlaethol. Mae gan 17.7% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol.

Penodwyd y pennaeth ym mis Rhagfyr 2012 yn dilyn cyfnod o flwyddyn fel pennaeth dros dro. Hwn yw arolygiad cyntaf yr ysgol.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gymraeg Bro Teyrnon yw £4,356. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yng Nghasnewydd yw £4,827 a'r lleiafswm yw £2,734. Mae Ysgol Gymraeg Bro Teyrnon yn y trydydd safle o'r 44 ysgol gynradd yng Nghasnewydd o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad yr ysgol yn dda oherwydd:

- Mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da iawn, maent yn awyddus i ddysgu, yn dangos gwir ddiddordeb yn eu tasgau ac yn gweithio'n ddiwyd am gyfnodau estynedig
- Mae medrau llythrennedd a rhifedd y rhan fwyaf o'r disgyblion yn dda
- Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae bron pob disgybl yn medru defnyddio'r Gymraeg yn gynyddol hyderus tra byddant wrth eu gweithgareddau ac ar adegau eraill yn ystod y dydd
- Mae ymddygiad bron bob disgybl yn dda ac maent yn gwrtais ac yn dangos parch at oedolion a'u cyfoedion
- Mae'r ysgol yn darparu profiadau dysgu sy'n adeiladu'n llwyddiannus ar brofiadau blaenorol disgyblion ac yn annog annibyniaeth a medrau meddwl y disgyblion yn dda
- Mae'r ysgol yn cofleidio'r diwylliannau amrywiol sydd o fewn y cymunedau lleol sy'n cryfhau dealltwriaeth y disgyblion o grefyddau a thraddodiadau'r byd
- Mae'r addysgu yn gyson gadarn ac mae bron pob aelod o staff yn disgwyl llawer gan y disgyblion, ac yn eu herio i gyflawni'n dda
- Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn effeithiol ac mae sylwadau'r athrawon yn cynnig adborth adeiladol ar gyfer y disgyblion, gan nodi'n glir yr hyn y maent wedi'i gyflawni'n dda a'r hyn sydd angen ei wneud er mwyn gwella
- Mae'r ysgol yn darparu nifer o raglenni ymyrraeth o ansawdd uchel ar gyfer grwpiau ac unigolion sydd angen cymorth ychwanegol

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- Mae gweledigaeth y pennaeth yn glir ac yn seiliedig ar gyfeiriad strategol cryf sy'n arddel disgwyliadau uchel ymhlith y staff ar ddisgyblion
- Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gadarn ac effeithiol iawn sydd â ffocws arbennig ar ddarparu profiadau dysgu cyfoethog a lles disgyblion
- Mae'r corff llywodraethol yn gydwybodol, yn ymroddgar iawn i'r ysgol ac yn chwarae rôl allweddol wrth ei sefydlu
- Mae trefniadau hunanarfarnu effeithiol wedi'u gwreiddio ym mywyd a gwaith yr ysgol ac maent yn gosod seiliau cadarn wrth i'r ysgol dyfu
- Mae gan yr ysgol ystod eithriadol o bartneriaethau, yn enwedig gyda'r rhieni, sydd yn ymestyn profiadau dysgu'r disgyblion yn sylweddol ac yn cael effaith arwyddocaol ar ddeilliannau a safonau lles bron pob un
- Mae'r ysgol yn cynnig cefnogaeth dda ar gyfer datblygiad proffesiynol y staff sy'n

dylanwadu'n llwyddiannus ar ansawdd yr addysgu a chyflawniad disgyblion
- Mae'r ysgol yn rheoli ei hadnoddau yn dda, gan sicrhau trefniadau staffio priodol i addysgu'r cwricwlwm yn effeithiol
- Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn monitro ac yn rheoli'r cyllid yn ofalus

## Argymhellion

A1 Cryfhau rôl y llywodraethwyr fel cyfaill beirniadol i'r ysgol fel eu bod yn gweithredu'n fwy strategol wrth gynllunio ar gyfer gwelliant

A2 Datblygu cyfrifoldebau arweinyddol y staff wrth gynllunio ar gyfer gwelliant

## Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.
Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, gan ddisgrifio'r arfer ragorol a welwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

O ystyried eu man cychwyn yn yr ysgol, yn arbennig yn eu gallu i siarad Cymraeg, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da iawn yn eu dysgu. Maent yn dangos gwir ddiddordeb yn eu tasgau ac yn gweithio'n ddiwyd am gyfnodau estynedig. Mae disgyblion o bob oedran yn dwyn dysgu blaenorol i gof yn rhwydd ac yn ei gymhwyso'n llwyddiannus mewn sefyllfaoedd newydd. Mae medrau llythrennedd a rhifedd y rhan fwyaf o'r disgyblion yn dda. Wrth fynd i'r afael â thasgau datrys problemau, fel gweithgareddau mesur cynhwysedd yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud defnydd effeithiol o'u medrau meddwl.

Mae rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd da iawn yn eu gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg ac yn defnyddio ystod gynyddol o eirfa pan fyddant yn sgwrsio gydag oedolion neu'n trafod eu gwaith. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae bron pob disgybl yn medru defnyddio'r Gymraeg yn gynyddol hyderus tra byddant wrth eu gweithgareddau ac ar adegau eraill yn ystod y dydd. Mae'r rhan fwyaf yn sgwrsio'n eglur yn y Gymraeg ac yn trafod profiadau a digwyddiadau cyfarwydd yn hyderus.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd da yn eu medrau darllen. Maent yn adeiladu geiriau yn systematig, gyda'r rhai mwy galluog yn darllen yn rhugl ac yn ystyrlon yn Gymraeg. Erbyn diwedd y cyfnod, mae llawer o'r disgyblion yn cynhyrchu darnau o ysgrifennu sy'n cynnwys brawddegau mewn amrywiaeth o ffyrdd. Mae llawer o'r disgyblion o oedran ifanc iawn, yn dangos dealltwriaeth dda o atalnodi, er enghraifft wrth ddefnyddio dyfynodau ac ebychnodau i greu effaith. Gyda chymorth, mae mwyafrif o ddisgyblion hynaf y Cyfnod Sylfaen yn ysgrifennu'n briodol mewn ffurfiau gwahanol. Maent yn creu gwaith estynedig o safon dda wrth gofnodi eu profiadau dysgu neu ysgrifennu stori, er enghraifft wrth iddynt ysgrifennu stori 'Gelert y Ci Ffyddlon' yn eu geiriau eu hunain.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n astud yn ystod gwersi ac yn cyfrannu'n bwrpasol mewn trafodaethau grŵp a dosbarth. Mae llawer yn ddarllenwyr hyderus yn y ddwy iaith. Mae disgyblion hŷn yr ysgol yn casglu ac yn cofnodi gwybodaeth yn drefnus o wahanol ffynonellau. Mae llawer o'r disgyblion yn ysgrifennu'n hyderus i nifer o bwrpasau, er enghraifft ffeil-o-ffeithiau, ysgrifennu sgwrs, a gweddi o ddiolch. Mae cyflwyniad gwaith llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2, ynghyd ag ansawdd eu llawysgrifen, o safon dda.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn datblygu eu medrau rhifedd yn llwyddiannus iawn mewn gwersi mathemateg ac wrth ymwneud â gweithgareddau ymarferol yn yr ardaloedd dysgu. Mae'r disgyblion hŷn yn dangos gafael sicr ar ffeithiau rhif ac yn defnyddio'r wybodaeth hon yn effeithiol i ddatrys problemau yn eu gweithgareddau. Er enghraifft wrth gyfrif swm o arian i £10 a rhoi newid. Maent yn

dehongli gwybodaeth wedi'i chyflwyno mewn graffiau neu ddiagramau gwahanol gyda chywirdeb da, gan ddefnyddio geirfa fathemategol gywir wrth drafod eu gwaith. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn mynd i'r afael â gweithgareddau ymarferol yn hyderus ac yn systematig. Er enghraifft wrth ddatrys problemau yn ymwneud ag arian a ffracsiynau. Erbyn diwedd Blwyddyn 3, mae'r mwyafrif yn defnyddio ffeithiau rhif yn briodol i wneud cyfrifiadau yn y pen. Mae bron pob disgybl yn ymdrin â rhifau tri-digid a chanrannau'n hyderus ac yn defnyddio ystod addas o strategaethau ar gyfer gwirio eu hatebion. Wrth ymwneud â gwaith ymarferol mewn mathemateg, er enghraifft cadw cyfrifon o werthiant mewn siop, mae'r disgyblion hŷn yn casglu data o nifer o ffynonellau ac yn ei gyflwyno'n fedrus ar ffurf tablau, graffiau a thaenlenni. Mae gallu'r rhan fwyaf o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 i gymhwyso eu medrau rhifedd ar gyfer datrys problemau ymarferol, yn dda.

Rhaid trin asesiadau athrawon ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen gyda gofal gan fod y niferoedd bychan o ddisgyblion mewn blwyddyn yn effeithio’n sylweddol ar berfformiad yr ysgol o un flwyddyn i’r llall.

Gan mai dwy flynedd yn unig o ddata cyrhaeddiad sydd yn bodoli, nid yw’n bosibl dod i farn ystyrlon ar dueddiadau mewn perfformiad. Nid yw’n bosibl ychwaith barnu unrhyw batrwm o dangyflawni gan grwpiau o ddisgyblion, gan gynnwys cyflawniad y rhai sy'n gymwys i dderbyn cinio di-dâl o’u cymharu â gweddill y disgyblion.

Dros y ddwy flynedd diwethaf, o gymharu ag ysgolion tebyg, mae cyfran y disgyblion sy’n cyrraedd y deilliant 5 disgwyliedig wedi codi o’r 50% is i’r 25% uchaf ym mhob maes astudio. Mae perfformiad yr ysgol ar ddeilliant 6 wedi gosod yr ysgol ymhlith y 25% uchaf am y ddwy flynedd ddiwethaf ym mhob maes astudio.

**Lles: Da**

Mae bron pob disgybl yn teimlo’n hapus a diogel yn yr ysgol ac yn gwybod eu bod yn gallu troi at unrhyw aelod o staff neu ffrind am gymorth fel bo’r angen. Maent wedi cydweithio ag athrawon i sefydlu ardal ‘ffrindiau ffyddlon' er mwyn gofalu am unrhyw ddisgybl sydd yn anhapus neu’n unig. Mae disgyblion hŷn yr ysgol yn ofalgar iawn tuag at y disgyblion iau. Mae bron bob disgybl yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd bwyta a byw’n iach ac yn mwynhau ystod eang o weithgareddau corfforol.

Mae bron bob disgybl yn frwdfrydig ac yn awyddus i ddysgu. Maent yn gweithio’n effeithiol gydag eraill ac yn barod i wrando ar farn eu cyfoedion. Mae llawer o ddisgyblion yn gweithio’n dda yn annibynnol, ac am gyfnodau estynedig, gan wneud dewisiadau priodol wrth gwblhau tasgau.

Mae ymddygiad bron bob disgybl yn dda. Maent yn gwrtais ac yn dangos parch at oedolion a’u cyfoedion. Trwy ystod o weithgareddau symbylus, mae disgyblion yn datblygu amrediad da o fedrau cymdeithasol a bywyd. Er enghraifft, mae disgyblion y dosbarth meithrin a’r derbyn yn chwarae rhan flaenllaw wrth archebu ffrwythau a llysiau ar gyfer y gydweithfa fwyd.

Mae’r cyngor ysgol a’r cyngor eco yn chwarae rhan effeithiol ym mhenderfyniadau’r ysgol. Maent yn flaengar wrth drefnu digwyddiadau llwyddiannus iawn ar gyfer rhieni a’r gymuned leol, er enghraifft gweithgareddau maldod yn ystod wythnos iechyd a ffitrwydd. O ganlyniad, mae gan bron bob un disgybl ymwybyddiaeth gadarn o faterion sy’n ymwneud ag iechyd meddwl.

Mae cyfraddau presenoldeb yr ysgol wedi gwella'n gyson dros y tair blynedd ddiwethaf. Mae'r gyfradd presenoldeb ar gyfer y llynedd yn dangos gwelliant parhaus, gyda chyfradd presenoldeb o 95.3%. Fodd bynnag, mae'r cyfraddau presenoldeb ar gyfer y ddwy flynedd ddiwethaf wedi gosod yr ysgol yn y 50% is o gymharu ag ysgolion tebyg. Serch hyn, gan nad yw'r ysgol eto yn ei llawn dwf, mae'n anodd cymharu presenoldeb yr ysgol hon gydag ysgolion tebyg.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau ysgogol i'r disgyblion, sy'n ymateb yn llawn i ofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol. Mae'r athrawon yn darparu amrywiaeth o weithgareddau gwerthfawr sy'n ennyn diddordeb a brwdfrydedd bron bob un o'r disgyblion. Mae hyn yn annog disgyblion i feddwl ac i rannu syniadau, sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu medrau. Mae'r profiadau dysgu yn adeiladu'n llwyddiannus ar brofiadau blaenorol ac yn annog annibyniaeth a medrau meddwl y disgyblion yn dda.

Mae'r ysgol yn sicrhau bod y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn gonglfaen i gynlluniau'r ysgol. Mae'r athrawon yn cynllunio'n fwriadus i sicrhau cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gymhwyso eu medrau llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm. Mae'r cynlluniau tymor hir yn sicrhau dilyniant a pharhad cadarn sy'n ystyried anghenion disgyblion pan fydd yr ysgol wedi cyrraedd ei llawn dwf. Mae prosiectau arbennig yn cyfrannu'n arwyddocaol at ddatblygiad medrau rhifedd, llythrennedd, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu'r (TGCh) disgyblion. Er enghraifft, prosiect cynllunio ac adeiladu tŷ ffantasi yn seiliedig ar waith adeiladu adeilad yr ysgol.

Mae'r ysgol yn atgyfnerthu profiadau dysgu disgyblion yn fuddiol drwy drefnu ymweliadau addysgol a thrwy wahodd ymwelwyr o'r gymuned leol i'r ysgol. Mae staff yr ysgol yn sicrhau bod gan y dimensiwn Cymreig rôl ganolog yn yr ysgol. Darperir amrywiaeth dda o gyfleoedd ar gyfer datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o ddathliadau, hanes a diwylliant Cymru. Er enghraifft prosiectau celfyddydau gyda theatr mewn addysg, arlunwyr lleol ac ymweliadau i amgueddfa Caerllion a Chaerdydd.

Mae addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang wedi datblygu'n effeithiol yn yr ysgol ac mae'r cyngor ysgol a'r cyngor eco yn hyrwyddo ymwybyddiaeth eu cyd-ddisgyblion ymhellach. Maent yn sicrhau bod yr ysgol yn gweithredu'n gynaliadwy. Dengys y disgyblion gonsyrn amlwg dros eraill gan drefnu nosweithiau arbennig ar gyfer ffrindiau'r ysgol a thrwy godi arian yn rheolaidd at waith elusennol a dyngarol. Er enghraifft trefnu noswaith lles a harddwch ar gyfer rhieni. Mae'r ysgol yn cofleidio'r diwylliannau amrywiol sydd o fewn y cymunedau lleol sy'n cryfhau dealltwriaeth y disgyblion o grefyddau a thraddodiadau'r byd.

**Addysgu: Da**

Mae staff yr ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o amrywiaeth addas o ddulliau addysgu. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn cyflawni'n dda ac yn datblygu medrau dysgu annibynnol yn llwyddiannus. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn darparu tasgau heriol sy'n adeiladu'n llwyddiannus ar yr hyn mae disgyblion eisoes yn ei wybod er mwyn ymestyn eu dealltwriaeth, datblygu medrau a chodi safonau ymhellach. Mae gan bron pob aelod o staff ddisgwyliadau uchel o ddisgyblion, ac maent yn eu herio i gyflawni'n dda.

Mae'r rhan fwyaf o'r staff yn modelu iaith safonol yn gyson ac mae hyn yn cyfrannu'n dda at gryfhau iaith lafar y disgyblion yn llwyddiannus. Mae perthynas waith fuddiol yn bodoli rhwng yr oedolion a'r disgyblion ar draws yr ysgol.

Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn effeithiol ac mae gwaith disgyblion yn cael ei farcio'n rheolaidd. Mae sylwadau'r athrawon yn cynnig adborth adeiladol ar gyfer y disgyblion, gan nodi'n glir yr hyn y maent wedi'i gyflawni'n dda a'r hyn sydd angen ei wneud er mwyn gwella. Defnyddir y dull marcio yn effeithiol gan yr athrawon i osod targedau personol ar gyfer gwelliant. Elfen gref o waith yr ysgol yw'r modd systematig y mae'r athrawon yn ystyried gallu pob disgybl yn ofalus wrth holi cwestiynau.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau llwyddiannus ar gyfer asesu, monitro a chofnodi cynnydd disgyblion. Mae'r athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o brofion safonol a data olrhain cynnydd er mwyn cynllunio darpariaeth a chefnogaeth briodol. Mae'r rhieni yn derbyn gwybodaeth werthfawr am gynnydd eu plant mewn adroddiadau blynyddol cynhwysfawr a chyfarfodydd rheolaidd buddiol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned hapus a diogel lle roddir blaenoriaeth uchel i les disgyblion a staff. Mae'r staff yn gwneud yn siŵr bod yr amgylchedd yn gynnes, yn groesawgar ac yn gynhwysol, lle rhoddir cyfle cyfartal i bawb.

Un o gryfderau'r ysgol yw'r ddarpariaeth effeithiol ar gyfer hybu iechyd a ffitrwydd y disgyblion. Mae staff yn gwneud hyn drwy gynllunio cyfleoedd amrywiol a chyfoethog mewn gwersi ac mewn gweithgareddau allgyrsiol. Er enghraifft yn y clwb ffitrwydd a thrwy gydweithio'n agos gyda swyddogion clwb pêl droed Casnewydd. Yn sgil gweithgarwch rheolaidd, mae trefniadau'r ysgol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach yn llwyddiannus.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus. Darperir cyfleoedd effeithiol iawn i alluogi disgyblion i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad eu medrau cymdeithasol. Mae'r sesiynau addoli ar y cyd yn creu awyrgylch gofalgar ac ysbrydol. Caiff disgyblion gyfleoedd gwerthfawr i fyfyrio ar bynciau cyfoes, er enghraifft wrth drafod sut i helpu ffoaduriaid.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol iawn gyda nifer o asiantaethau arbenigol fel yr heddlu, seicolegwyr addysg a gwasanaethau cymdeithasol yn ôl yr angen. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol yn gynhwysfawr iawn. Mae athrawon yn adnabod anghenion dysgwyr yn gynnar. Maent yn derbyn cefnogaeth werthfawr gan y cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol er mwyn darparu nifer o raglenni ymyrraeth o ansawdd uchel ar gyfer grwpiau ac unigolion. O ganlyniad, mae'r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd da iawn tuag at eu targedau.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae Ysgol Gymraeg Bro Teyrnon yn gymuned hapus iawn lle caiff pob plentyn a'u teuluoedd eu croesawu, eu parchu a'u cefnogi. Mae'r staff yn darparu cyfleoedd cyfoethog i'r disgyblion ddysgu'n llawn am yr amrywiaethau gwahanol sy'n eu cymuned. Mae polisïau a gweithdrefnau clir yr ysgol yn atgyfnerthu dealltwriaeth disgyblion o faterion hawliau cyfartal, parch a thegwch. Mae hyn yn treiddio i bob agwedd o fywyd yr ysgol, er enghraifft prosiect yr ysgol ar y gemau paralympaidd. Mae yna osteg amlwg yn perthyn i'r ysgol ac mae hyn yn arwain at ymddygiad da gan bron pob disgyblion. Mae rheolau ysgol gytûn yn glir ac yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad medrau personol a chymdeithasol y disgyblion.

Mae'r arddangosfeydd lliwgar yn atgyfnerthu negeseuon pwysig am gynaliadwyedd ac yn cefnogi'r dysgu yn y dosbarthiadau. Mae cyflenwad helaeth o adnoddau newydd o ansawdd uchel yn cael eu rheoli a'u defnyddio'n effeithiol gan y staff i gefnogi'r addysgu.

Mae'r safle'n ddiogel, yr adeilad yn raenus a'r tir yn cael ei gynnal a'i gadw'n daclus. Mae'r gwelliannau sylweddol sydd wedi'u gwneud yn ddiweddar i'r amgylchedd dysgu eisoes yn cael effaith gadarnhaol ar safonau disgyblion.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gadarn ac effeithiol iawn sydd â ffocws arbennig ar ddarparu profiadau dysgu cyfoethog a lles disgyblion. Mae ganddi weledigaeth glir sy'n seiliedig ar gyfeiriad strategol cryf a llwydda i arddel disgwyliadau uchel ymhlith y staff ar ddisgyblion. O ganlyniad, mae'r holl randdeiliaid yn cydweithio'n ddiflino i greu cymuned ysgol drefnus. Mae hyn yn sicrhau bod pob agwedd a blaengaredd newydd a gyflwynir yn ystod blynyddoedd ffurfiannol yr ysgol yn gwreiddio'n dda ac yn cael dylanwad positif ar safonau disgyblion. Mae hyn yn gryfder amlwg yn yr ysgol ac yn gosod seiliau cadarn ar gyfer y dyfodol.

Mae'r staff addysgu a'r staff cymorth yn frwdfrydig ac yn cydweithio'n agos fel tîm. Mae eu rolau yn datblygu'n briodol law yn llaw â thwf a datblygiad yr ysgol. Mae ychydig o athrawon yn ymgymryd â chyfrifoldebau unigol am agweddau penodol o'r cwricwlwm. Er enghraifft, yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi penodi cydlynydd rhifedd ac anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth, safonau disgyblion ac yn cyfrannu'n dda iawn at flaenoriaethau cynnar yr ysgol.

Mae cyfarfodydd staff yn canolbwyntio'n dda ar ansawdd yr addysgu ac ar sicrhau safonau uchel. Mae gan yr ysgol drefniadau rheoli perfformiad effeithlon ar gyfer pob aelod o staff, sydd yn adnabod ac yn cefnogi agweddau perthnasol ar gyfer eu datblygiad proffesiynol yn llwyddiannus.

Mae'r ysgol yn ymateb yn llwyddiannus i flaenoriaethau cenedlaethol. Mae'r staff yn cynllunio'n effeithiol i sicrhau cyfle cyfartal i'r holl ddisgyblion ac mae’r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn cael sylw da yng nghynlluniau gwaith athrawon.

Mae'r corff llywodraethol yn gydwybodol ac yn ymroddgar iawn i'r ysgol. Maent yn chwarae rôl allweddol wrth ei sefydlu trwy benodi staff a rheoli adnoddau yn ofalus. Mae'r aelodau yn derbyn gwybodaeth ddefnyddiol gan y pennaeth am gryfderau’r ysgol ac unrhyw feysydd i’w gwella. Maent yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd i werthuso ei pherfformiad drwy deithiau dysgu, arsylwi gwersi a chraffu ar waith disgyblion. Mae gan y llywodraethwyr drefn addas ar gyfer barnu safonau disgyblion ac effeithiolrwydd yr addysgu. Fodd bynnag, nid ydynt bob tro’n defnyddio’r wybodaeth hon yn ddigon strategol wrth gynllunio ar gyfer gwelliant. O ganlyniad, nid yw eu rôl fel cyfaill beirniadol i'r ysgol eto wedi datblygu i'w llawn botensial.

**Gwella ansawdd: Da**

O dan arweinyddiaeth bwyllog a chraff y pennaeth, mae diwylliant hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant yn datblygu'n dda. Mewn cyfnod byr iawn, mae trefniadau hunanarfarnu wedi gwreiddio ym mywyd a gwaith yr ysgol ac eisoes yn cael effaith gadarnhaol ar safonau disgyblion. Er enghraifft wrth ddatblygu cyfathrebwyr hyderus yn y Gymraeg a darllenwyr brwd.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu, yn ddogfen ddefnyddiol iawn, ac yn nodi cryfderau’r ysgol yn glir a'r mannau sydd angen eu datblygu ymhellach. Mae'r ysgol yn defnyddio ystod eang o dystiolaeth i gefnogi barnau'r adroddiad, gan gynnwys craffu ar waith disgyblion, monitro’r addysgu, yn ogystal â chasglu barn rhieni a llywodraethwyr. Mae mewnbwn ymgynghorydd her yr awdurdod addysg hefyd yn cryfhau'r broses.

Mae’r pennaeth wedi datblygu rhaglen gynhwysfawr er mwyn sicrhau bod llywodraethwyr a rhieni yn treulio amser yn y dosbarthiadau yn arsylwi gwersi. Mae gan yr ymweliadau hyn ffocws da ar safonau ac mae’r pennaeth yn ystyried deilliannau’r arsylwadau’n ofalus fel rhan o’r broses hunanarfarnu. Mae’r llywodraethwyr yn cyfrannu’n dda at drefniadau gwerthuso perfformiad yr ysgol. Maent yn cychwyn gwneud defnydd priodol o ddata i adnabod agweddau sydd angen eu gwella ac i gynllunio ar gyfer datblygiad pellach.

Mae'r cynllun datblygu yn fanwl ac yn nodi targedau perthnasol a phenodol ar gyfer sefydlu a datblygu prosesau newydd. Mae cyswllt amlwg rhwng deilliannau'r adroddiad hunanarfarnu a blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol. Mae'r cynllun yn cynnwys ystyriaethau strategol addas ynghyd â chamau gweithredu manwl, meini prawf llwyddiant mesuradwy sy'n canolbwyntio'n dda ar ddeilliannau disgyblion a chostau perthnasol. Serch hynny, nid yw’n nodi’n ddigon clir pa aelodau o staff sydd â chyfrifoldeb dros y camau gweithredu. O ganlyniad, nid yw’r gwelliannau yn cael eu cwblhau’n ddigon effeithlon bob tro.

## Gweithio mewn partneriaeth:  Rhagorol

Mae gan yr ysgol ystod eithriadol o bartneriaethau arbennig sydd yn ymestyn profiadau dysgu'r disgyblion yn sylweddol ac yn cael effaith arwyddocaol ar ddeilliannau a safonau lles bron pob un.

Mae partneriaeth fuddiol iawn yn bodoli rhwng yr ysgol a'r rhieni sydd yn eu hannog i chwarae rhan allweddol yn addysg eu plant.  Enghraifft nodedig o hyn yw'r fenter 'Amser stori, amser gwely' lle gwahoddir rhieni i'r ysgol i gefnogi gwaith eu plant trwy rannu storïau.  Mae'r ysgol yn cefnogi'r rhieni yn effeithiol iawn i greu adnoddau ac i ddatblygu'r fenter ymhellach yn y llyfrgell leol.  Mae hyn yn cynnig cyfleoedd buddiol i ddisgyblion a'u teuluoedd o ysgolion cynradd cyfagos fod yn rhan o'r fenter hefyd.  Enghraifft arall o'r bartneriaeth eithriadol hon, yw'r defnydd dychmygus o gyfraniad rhieni wrth gydweithio gyda disgyblion i drefnu gweithgareddau maldod yn ystod yr wythnos iechyd a ffitrwydd.  Mae hwn yn cael effaith benodol ar safonau lles disgyblion.

Mae'r ysgol yn cyfathrebu'n effeithiol iawn gyda rhieni ac yn canfod eu barn yn rheolaidd drwy holiaduron a dyddiau 'Dewch a mam a dad i'r ysgol'.  O ganlyniad, mae rhieni'n teimlo'n gyfforddus iawn yn troi at yr ysgol am gymorth ac i gynnig eu gwasanaeth yn wirfoddol.

Mae'r ysgol yn meithrin cysylltiadau llwyddiannus iawn gyda'r gymuned a busnesau lleol.  Mae'n manteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r rhain ym mywyd yr ysgol, er enghraifft wrth weithio gyda'r gweithwyr casglu sbwriel.  O ganlyniad, mae disgyblion yn ymwybodol iawn o'r angen i gadw'r gymuned yn lân ac yn rhannu'r neges yn llwyddiannus ac yn rheolaidd gyda'r ardal leol.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau effeithiol iawn gyda nifer o ysgolion cynradd Cymraeg lleol.  Mae gwaith cymedroli effeithiol yn digwydd yn ogystal â rhannu profiadau er mwyn datblygu staff a chynorthwywyr.  Mae'r prosesau hyn yn cynorthwyo'r athrawon i ddeall yn well y safonau disgwyliedig ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn ogystal â'u paratoi'n dda ar gyfer safoni gwaith disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2.  Wrth weithio gyda'r ysgol gyfun leol a'r gwasanaethau cymdeithasol, mae'r ysgol hefyd yn sicrhau darpariaeth fuddiol iawn i deuluoedd sydd angen cymorth.  Mae'r ddarpariaeth hon yn cael effaith gadarnhaol iawn ar les nifer sylweddol o ddisgyblion a'u teuluoedd.

Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol gyda'r cylchoedd chwarae er mwyn i ddisgyblion drosglwyddo'n esmwyth i'r ysgol.  Mae disgyblion yn ymgartrefu'n dda yn y dosbarth meithrin oherwydd y cydweithio agos.  Er nad oes disgyblion wedi trosglwyddo i'r ysgol uwchradd hyd yma, mae'r ysgol yn sicrhau bod trefniadau trosglwyddo cadarn eisoes yn cael eu sefydlu.  Er enghraifft, mae disgyblion wedi chwarae rhan allweddol wrth gynllunio gwisg ysgol ar gyfer yr ysgol uwchradd newydd a fydd yn agor yng Nghasnewydd.

## Rheoli adnoddau:  Da

Mae'r ysgol yn rheoli'r holl adnoddau yn effeithlon ac effeithiol i gefnogi gwella dysgu.  Mae gan yr ysgol lefel briodol o athrawon cymwys a chynorthwywyr sy'n cydweithio'n

dda i gyflwyno'r cwricwlwm a chefnogi'r disgyblion.  Maent yn cael cefnogaeth trwy drefniadau datblygiad proffesiynol cadarn sy'n dylanwadu'n llwyddiannus ar ansawdd yr addysgu a chyflawniad disgyblion.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol ag ysgolion lleol i rannu profiadau ac arfer dda sy'n gwella'r ddarpariaeth a chodi safonau.  Mae'r trefniadau ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu yn briodol, gan gynnwys cyfnod ychwanegol i athro newydd-gymhwyso.

Mae'r amrediad da iawn o adnoddau yn cael eu rheoli'n effeithiol ac mae'r disgyblion yn elwa'n fawr o'r cyfleoedd i'w defnyddio, ynghyd ag amgylchedd allanol symbylus ac eang.  Mae'r ysgol wedi llwyddo i sefydlu'r safle priodol trwy adnewyddu, trwsio ac adeiladu rhannau penodol.

Mae'r pennaeth, gyda chymorth y llywodraethwyr ac arweiniad gan yr awdurdod addysg, yn monitro ac yn rheoli'r cyllid yn ofalus gan sicrhau bod cysylltiad agos â blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol.  Mae'r defnydd a wneir o'r Grant Amddifadedd Disgyblion yn cael effaith gadarnhaol ar safonau'r disgyblion sy'n gymwys i dderbyn cinio am ddim.  Enghraifft dda o hwn yw'r modd y mae'r ysgol yn defnyddio TGCh er mwyn gwella medrau llythrennedd a rhifedd y disgyblion hyn.

Gan fod y disgyblion yn cyrraedd safonau cyffredinol da, a'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o adnoddau, mae'n cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

Mae llawer o garfanau bach iawn mewn llawer o’r blynyddoedd o ddata perfformiad y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 ar gyfer yr ysgol hon. Mewn achos felly, nid ydym yn cynnwys tabl data perfformiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod. http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i’r holiadur i ddysgwyr

Derbyniwyd llai na 10 ymateb. Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

### Ymateb i’r holiadur i rieni

Yn dynodi’r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o’r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 13 | 12 | 1 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 92% | 8% | 0% | 0% | | |
| | | 64% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 13 | 12 | 1 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 92% | 8% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 13 | 12 | 1 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 92% | 8% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 13 | 10 | 3 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 77% | 23% | 0% | 0% | | |
| | | 62% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 13 | 9 | 4 | 0 | 0 | 0 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 69% | 31% | 0% | 0% | | |
| | | 48% | 47% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 13 | 11 | 2 | 0 | 0 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| | | 62% | 36% | 2% | 0% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 13 | 10 | 3 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 77% | 23% | 0% | 0% | | |
| | | 65% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 13 | 10 | 3 | 0 | 0 | 0 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 77% | 23% | 0% | 0% | | |
| | | 50% | 42% | 6% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 13 | 13 | 0 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 100% | 0% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 13 | 12 | 1 | 0 | 0 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 92% | 8% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 37% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 13 | 10 | 3 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 77% | 23% | 0% | 0% | | |
| | | 67% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 13 | 7 | 5 | 0 | 1 | 0 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 54% | 38% | 0% | 8% | | |
| | | 56% | 38% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 13 | 9 | 4 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 69% | 31% | 0% | 0% | | |
| | | 50% | 40% | 8% | 2% | | |
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 13 | 12 | 1 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 92% | 8% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 13 | 9 | 4 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 69% | 31% | 0% | 0% | | |
| | | 49% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 13 | 11 | 2 | 0 | 0 | 0 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| | | 58% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 11 | 9 | 2 | 0 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 82% | 18% | 0% | 0% | | |
| | | 53% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 13 | 9 | 4 | 0 | 0 | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 69% | 31% | 0% | 0% | | |
| | | 55% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 13 | 11 | 2 | 0 | 0 | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| | | 62% | 33% | 3% | 2% | | |

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Dyfrig Wyn Ellis | Arolygydd Cofnodol |
| Kevin Davies | Arolygydd Tîm |
| Jonathan Cooper | Arolygydd Tîm |
| Michaela Leyshon | Arolygydd Lleyg |
| Hefin Jones | Arolygydd Cymheiriaid |
| Lona Jones-Campbell | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

### Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

### Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.